**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-LG-0750-22

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Copi at: Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

18 Mai 2022

Annwyl Huw

**Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2022**

Mae'r rheoliadau a enwir uchod ("Rheoliadau 2022") yn ymwneud â mesurau sy'n gymwys i bysgodfa draenogod môr sy'n ymestyn y tu hwnt i Barth Cymru. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn berthnasol i'r DU gyfan ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU. Yn benodol, mae Rheoliadau 2022 yn diwygio symiau'r draenogod môr y gellir eu cadw fel sgil-ddalfa wrth weithredu offer pysgota sy'n cael eu defnyddio i dargedu rhywogaethau eraill. Bydd y mesurau'n ymestyn y broses o osgoi gwaredu draenogod môr yn wastraffus.

Cytunwyd ar y mesurau hyn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod yr ymgyngoriadau ar gyfleoedd pysgota a rennir ar gyfer 2022 a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021.

Rwyf wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau 2022, felly mae'r darpariaethau ynddo yn gymwys yng Nghymru. Gosodwyd Rheoliadau 2022 gerbron y Senedd ar 29 Ebrill ac mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Pan fydd angen cynnal fframweithiau pysgodfeydd rheoleiddiol ledled y DU, mae'n briodol fy mod yn cydsynio i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar bysgodfa draenogod môr sy'n cael ei rhannu â Gweinyddiaethau eraill yn y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a byddaf yn ysgrifennu llythyr tebyg at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**